

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

### **Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 10fed o Fedi 2019**

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Nerys Williams, Justin Davies, Dylan Herbert, Iona Wyn Jones – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts – Llanllyfni; Harry Wyn Owen, Sian Dafydd (Talysarn); Dafydd Thomas (Nebo); Judith Hunphreys (Cynghorydd Sir); Mair (Grwp Cynefin) ar gyfer eitem 2 / **Ymddiheuriadau:** Erfyl Williams (Penygroes); OP Huws (Llanllyfni); Ffion Jones (Nantlle); Gareth Ll Jones (Talysarn); Craig ab Iago (Cynghorydd Sir).
- 2. Canolfan Feddygol** Croesawyd Mair i'r cyfarfod – cafwyd diweddariad ar gynllun Canolfan Iechyd Dyffryn Nantlle ym Mhenygroes ar hen safle Express Motors, Penygroes. Mae'r cynllun arfaethedig yn un uchelgeisiol iawn ac arloesol. Ceisio sicrhau ffynonellau arian yw'r cam presennol i lunio'r 'briff' terfynol a cheisio am arian cyfalaf ar gyfer adeiladu. Yr AS a'r AC yn barod i hyrwyddo'r brosiect. Cafodd y Cynghorwyr gyfle i holi, a chrybwyllwyd llefydd parcio, CCTV ac ynni cymunedol.
- 3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Harry Wyn Owen – lloches bws Penygroes.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Gorffennaf.** Emyr, nid Steffan, eitem 12. Eitem 13 – Parc Cenedlaethol yn cysylltu, nid y Pwyllgor Pentref. Datganwyd cywirdeb y cofnodion.
- 5. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Derbyniwyd adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig gan Judith Humphreys. Gofynwyd iddi holi os oedd unrhyw gynllun arfaethedig ar gyfer llwybr cwad yn Dyffryn Nantlle. Dywedodd Judith fod Swyddog Cyngor Gwynedd yn holi eto am ddefnydd y man ailgylchu ym Mhenygroes gan fod llawer iawn o tipio anghyfreithlon yn parhau. Gofynwyd i Judith holi os oes posib cael camera yno, a gofyn i Gyngor Gwynedd os y gallwn gadw'r safle ar agor efo camera. Roedd pryder os y byddai'r safle yn cael ei gau yn gyfangwbl, y byddai yn creu llawer mwy o broblemau. Gofynwyd iddi holi os oes posib cael swyddog i ymweld a Penygroes eto ynglyn a phryderon diogelwch ffordd – Ffordd y Brenin (yn enwedig gan fod y ddwy ysgol yno), does dim palmant mewn rhan, a mae pryder am geir yn gorrru yno. Roedd pryder gan y Cynghorwyr fod disgyblion yn symud o Ysgol Dyffryn Nantlle i ysgolion eraill tu allan i'r dalgylch.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Darllenwyd yr ymatebion. Llwybr 14 – angen ei chwistrellu. Cofeb RW Parry – derbyniwyd llythyr gan y cwmni yswiriant yn datgan fod rhaid cael tystiolaeth bendant fod neb yn berchen ar y gofeb cyn y gallai'r Cyngor ystyried ychwanegu at yswiriant. Derbyniwyd ymateb gan swyddog diogelwch Cyngor Gwynedd fod pryderon y Cyngor Cymuned ynglyn a pharcio tu allan i'r Co-op yn fater gorfodaeth, a ni chytunwyd i adolygu'r trefniant presennol sydd yno. Mae'r Cyngor yn parhau i gredu bod angen bolardiau neu ffens yno i atal ceir barcio, ac i atal pobl rhag croesi rhwng cerbydau wedi parcio a bysiau.
- 7. Materion Pentrefi ac Unrhyw Fater i'r Heddlu.** Talysarn Roedd pryder fod post Talysarn wedi cau am wythnos a neb yno. Yr henoed wedi cerdded i lawr yn ofer. Cysylltu efo Sian Gwenllian/Swyddfa'r Bost; Cwynion am y Parc Sglefrio – poeni am y tyllau sydd yn y gwaith haearn – y safle ddim yn cael ei gynnal a chadw o gwbl, ac yn brysur ddirywio. Llanllyfni Holi eto am arwyddion 'No Through Road' ar gyfer Lon Talgarnedd a Lon Tyddyn Agnes; Pont Bryn Ffactri angen trimio; Tyllau ar y ffordd Bryn Sisyllt ac ar Ffordd Rhedyw ar bwys y troead i'r Neuadd Goffa; Diweddariad Taldrwst – llawer o drafnidiaeth ar hyn o bryd. Nebo 8 person wedi eu hyfforddi a thrwyddedu ar gyfer gwaredu Canglwm Siapaniaidd. Dywedodd Dafydd fod y grwp wedi dechrau chwistrellu, a'i bod yn brosiect pedair mlynedd. Mae'r grwp yn canolbwyntio ar y Gors ac o gwmpas y Gors. Penygroes Cerbydau ar ochr anghywir y ffordd wrth y troead am Hyfrydle Road yn Nhalysarn (o Penygroes i Talysarn). Y troead yn beryglus wrth dynnu allan o Hyfrydle Road; Wal dros y ffordd i'r Co-op – y copins llechi wedi malu; Y plac sydd yn denhongli hanes Dyffryn Nantlle wedi ei falurio; Pryder fod y faine sydd ar y safle yn guddiedig, ac efallai byddai torri coed yno yn helpu– ysgrifennu at Cyngor Gwynedd (swyddog Lon Eifion am dorri'r coed, priffyrdd am y wal); Ysmygu yn broblem ar lon gefn Ffordd y Brenin – gresynu fod plant bach yn gweld y plant hyn yn ysmygu – gair i'r Llywodraethwyr drwy Judith gan fod hyn ddim yn rhoi argraff bositif i ddelwedd yr ysgol; Ffordd Clynnog ger Wynnstay – llecyn glaswellt heb ei dorri eleni gan Cyngor Gwynedd, ac yn fler iawn. Fel arfer yn cael ei dorri ynflynyddol; Ffordd Llwyndu – pant yn y ffordd yn mynd yn waeth – dau yno rwan, a twll yn dechrau. O flaen y byngalows, tyfiant yn dod i'r pafin – lled y palmant i lawr o 3.5 troedfedd i ddim ond 2 droedfedd; Llythyr i Cyngor Gwynedd I ddiolch am wneud y gwaith ailwynebu yn Trem yr Wyddfa; Pryderon am aflonyddu yn Cae Catrin am 2 a 3 o'r gloch y bore – llawer o gwyno am blant yn stelcian yn y fynedfa.

**8. Llwybrau a Mynwentydd.** Y tir wrth y fynwent wedi ei osod tan Fis Mawrth; Penderfynwyd cychwyn ar y gwaith o dynnu'r corlenni, gan ddechrau ym Mhenygroes – pridd a cherrig wedi ei daflu i'r gorlan eto ar ol gwaith gosod carreg, ac hefyd llanast wedi ei adael ar un o lwybrau'r fynwent ar ol gosod carreg yn ddiweddar; Derbyniwyd cwyn fod mynediad wedi ei wrthod i unigolyn gyda cheffyl ar llwybr 11 a llwybr 1, a bod rhwystrau ar y llwybrau. Y Cyngor Cymuned yn cefnogi ymgyrch grwp i warchod hawliau tramwy. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo'r Swyddog Llwybrau er mwyn trefnu cyfarfod efo'r grwp, a Chynghorydd Talysarn; Llwybr 18 – gor dyfniant yn amharu cerdded ar y llwybr.

**9. Taflen Ariannol, Taflen Gyllid, Biliau i'w Talu.** A Johnson - £50 Ffon/Rhyngwyd 2 fis; A Johnson Derbynebaw - £31.79, Currys PC World £180.00 (argraffwr newydd); Scottish Power - £32.83 a £33.81. Derbyn. **\*Cadarnhad cydymffurfiad Pensions Regulator.** Wedi cofrestru.

**10. Cynllunio:** 2 Rhos Dulyn, Nebo – estyniad - cytuno; Bod Ychain Isaf, Nasareth – adeilad amaethyddol - cytuno; Stiwdio Crychddwr, Llanllyfni – addasu adeilad i fod yn uned gwyliu – gwrthwynebu ar y sail fod y fynediad yn beryglus i'r pwrpas ac yn anaddas. Hefyd poeni y gall arwain at ddatblygiad pellach ar y safle, a gosod cynsail; 78 Ffordd Rhedyw – diwygio estyniad cefn - cytuno; Ty Mawr Nebo – addasiadau llawr cyntaf - cytuno.

**11. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis:** Estyniad MacPelah – Tirlunio. . Bu cyfarfod yn y fynwent yn ystod yr Haf, ac argymhellwyd i'r Cyngor llawn fod y Cyngor yn bwrw ymlaen gyda'r cam nesaf, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd Mark Balaam wedi cytuno i gynorthwyo'r Cyngor i gadw llygad ar y gwaith. Bydd rhaid creu cynllun, cael amcan o brisiau cyn gwneud cais am fenthyciad gn y PWLB. Nod – cyfarfod arbennig mis Hydref i gychwyn arni. Gofynwyd am gadarnhad y Cyngor llawn – pawb yn cytuno ar y ffordd ymlaen.

**12. Tendr Pori Cae MacPelah** – cadarnhau'r manylion arfaethedig. Cadarnhawyd y gytundeb a cytunwyd gyrru i'r tendrwr llwyddiannus ar gyfer llofnod.

**13. Goleuadau Nadolig** (diweddariad). Gwaith gosod pwyntiau trydan ar bolion golau (rhan 1) wedi ei wneud.

**14. Gwasanaeth Post Symudol** (diweddariad). Y gwasanaeth yn galw ym mhentref Llanllyfni rwan.

**15. Model Rheoliadau Ariannol Diwygiedig Un Llais.** Derbyn – y Cyngor Cymuned i'w mabwysiadu.

## **16. Gohebiaeth**

### **\*Cyngor Gwynedd:**

\* Gwaharddiadau trafniadaeth dros dro Talysarn, a Llwyn y Fuches Penygroes (er gwybodaeth);

\*Ymgynghoriad Llechi Cymru – er gwybodaeth.

\*Ymgynghoriad dyluniad lloches bws Penygroes. Sylwadau i'w gyrru i Gyngor Gwynedd - Mae'r Cyngor yn credu yn gryf iawn fod angen 'railing' ar y pafin rhwng mynedfa ac allanfa y Coop newydd. Mae hwn yn rywbeth pwysig dros ben neu beryg fe gawn sefyllfa yno wrth i bobl gerdded rhwng dau fws allan i'r traffig er mwyn croesi syth drosodd i'r Coop. Nid yw llinellau melyn yn ddigon. Bydd 'railing' yn gofyn i bobl gerdded drwy mynedfa/allanfa swyddogol y coop a bydd hyn hefyd yn osgoi y broblem presennol lle mae ceir yn parcio ar y pafin pan mae'r siop yn brysur ac nid yn y maes parcio dros y ffordd. Bydd hyn hefyd yn atgyfnerthu y ffaith bod rhaid cadw'r 'loading bay' yn wag yn maes parcio'r Coop achos ar hyn o bryd mae'r lori ar y pafin gan bod cwsmeriaid wedi parcio yn y lle sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y lori.

Ym marn y Cyngor, mae hwn wir yn addasiad angenrheidiol cyn bod ni'n derbyn y cynllun ond bydd hefyd angen trafod gyda'r Coop am y sefyllfa. A fydd lle croesi swyddogol e.e Pelican crossing wrth y Co-op yn rhywle?

### **\*Arall**

\*Clerks and Councils Direct; Hyrwyddo Cyrsiâu Cymraeg I Oedolion; Comisiynydd Pobl Hyn; Arolwg Cynllunio Prifysgol Cymru; Practitioner's Guide Newydd. Derbyn.

**17. Ceisiadau am Arian** – Dim.